WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolygu a Chraffu – Parod at y Dyfodol? – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**


Blwyddyn Archwilio: 2017-18

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2018

Cyfeirnod y Ddogfen: 583A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn fewnol yn rhan o waith a berfformiwyd/ sydd i'w berfformio yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig ynglŷn ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu swyddogaeth unigol, nac ynglŷn ag unrhyw drydydd parti.

Pe derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen, Paul Goodlad a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolygu a chraffu ond mae lle i ystyried rhagor o newidiadau mwy sylfaenol er mwyn gallu wynebu heriau yn y dyfodol.


Adroddiad Cryno

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae'r Cyngor yn gefnogol o drefniadau trosolygu a chraffu, ond nid yw'r trefniadau angenrheidiol wedi eu datblygu'n llwyr hyd yma ar gyfer helpu aelodau sy'n ymgymryd â threfniadau trosolygu a chraffu i wynebu heriau yn y dyfodol 6

Mae arfer y pwyllgor trosolygu a chraffu yn gwella ac mae wedi cynyddu ystod y ffynonellau tystiolaeth y mae'n eu defnyddio ond mae angen i aelodau'r pwyllgor gymryd cyfrifoldeb llawn dros eu blaenraglenni gwaith 7

Mae'r swyddogaeth trosolygu a chraffu yn cyfrannu at welliannau o ran perfformio a gwneud penderfyniadau drwy herio'n rheolaidd ac mae'n gallu arddangos effaith gadarnhaol, ond mae angen i'r Cyngor adolygu pa un a yw'r swyddogaeth yn barod at y dyfodol 9

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolygu a chraffu llywodraeth leol effeithiol 11

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 13

# Adroddiad Cryno

## Crynodeb

1 Archwiliodd yr adolygiad hwn, gyda phob un o'r 22 cyngor yng Nghymru, pa mor 'barod at y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Fe ystyriwyd sut y mae cynghorau yn ymateb i heriau presennol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut y mae cynghorau yn dechrau craffu ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe wnaethom hefyd ystyried pa mor barod yw'r cynghorau i ymateb i heriau yn y dyfodol megis pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r symudiad posibl tuag at weithio mwy rhanbarthol rhwng yr awdurdodau lleol.

2 Yn rhan o'r adolygiad hwn cynhaliwyd hefyd adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan gynghorau o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol gynharach **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Fe wnaethom waith dilynol hefyd ar y cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i waith craffu a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i gynghorau yn rhan o'n hadolygiadau thematig 2016-17 o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu i Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau o ymwreiddio'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn rhan o'r prosesau a'r arferion craffu ar gyfer llywio arferion a rennir a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol sy'n berthnasol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- darparu sicrwydd bod swyddogaethau craffu wedi eu trefnu'n dda i ymateb i heriau a disgwyliadau presennol ac yn y dyfodol;
- helpu i ymwreiddio craffu effeithiol gan aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd; a
- darparu cipolwg o sut y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

4 Ar gyfer llywio ein canfyddiadau seiliwyd ein dull adolygu ar Ganlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolygu a Chraffu Effeithiol Llywodraeth Leol a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**

5 Yn ystod mis Tachwedd 2017 a mis Chwefror 2018 fe wnaethom adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion allweddol a chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr er mwyn gallu deall eu barn ar drefniadau craffu presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor). Yn enwedig, sut y mae'r Cyngor yn ymateb ac yn bwriadu ymateb i'r heriau a nodwyd uchod.

6 Fe wnaethom arsylwi sampl o gyfarfodydd trosolygu a chraffu perthnasol yn ogystal ag adolygu dogfennaeth berthnasol y cyfarfodydd a ddarparwyd i

aelodau pwyllgor i gefnogi eu swyddogaeth craffu, megis adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolygu a chraffu ond bod lle i ystyried newidiadau mwy sylfaenol er mwyn gallu wynebu heriau yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

a. mae'r Cyngor yn gefnogol o drefniadau trosolygu a chraffu, ond nid yw'r trefniadau angenrheidiol wedi eu datblygu'n llwyr hyd yma er mwyn gallu helpu aelodau sy'n ymgymryd â threfniadau trosolygu a chraffu i wynebu heriau yn y dyfodol;

b. mae arfer y Pwyllgor trosolygu a chraffu yn gwella ac mae wedi cynyddu ystod y ffynonellau tystiolaeth y mae yn eu defnyddio ond mae angen i aelodau'r pwyllgor gymryd cyfrifoldeb llawn o'u blaenraglenni gwaith; a

c. mae'r swyddogaeth trosolygu a chraffu yn cyfrannu at welliannau o ran perfformiad a gwneud penderfyniadau drwy herio'n rheolaidd ac mae'n gallu arddangos effaith gadarnhaol, ond mae angen i'r Cyngor adolygu pa un a yw'r swyddogaeth yn barod at y dyfodol.

# Cynigion ar gyfer Gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gall y Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolygu a chraffu i'w roi mewn sefyllfa well i wynebu heriau presennol ac yn y dyfodol.

| **Cynigion ar gyfer Gwella** | |
|---|---|
| P1 | Archwilio cyfleoedd i foderneiddio'r swyddogaeth trosolygu a chraffu, er mwyn sicrhau y gall wynebu heriau yn y dyfodol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolygu a chraffu ond mae lle i ystyried rhagor o newidiadau mwy sylfaenol fel y gall wynebu heriau yn y dyfodol

### Mae'r Cyngor yn gefnogol o drefniadau trosolygu a chraffu, ond nid yw'r trefniadau angenrheidiol wedi eu datblygu'n llwyr hyd yma ar gyfer helpu aelodau sy'n ymgymryd â threfniadau trosolygu a chraffu i wynebu heriau yn y dyfodol

9 Mae swyddogaeth y trefniadau trosolygu a chraffu wedi ei diffinio'n glir o fewn y Cyngor. Cynhelir gweithgareddau trosolygu a chraffu yn bennaf yng nghyfarfodydd y pum pwyllgor trosolygu a chraffu sydd gan y Cyngor, a gwneir rhai gweithgareddau drwy grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae trosolygu a chraffu yn rhan systematig o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a chaiff hyn ei werthfawrogi gan swyddogion a chynghorwyr. Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cynghorwyr yn glir yng nghyfansoddiad y Cyngor a phrotocolau perthnasol ond mae rhywfaint o ddryswch yn bodoli ymhlith y cynghorwyr o ran swyddogaeth gyfreithiol craffu.

10 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ar sgiliau craffu a chadeirio effeithiol yn rhan o'i raglen ymsefydlu a datblygu cynghorwyr. Mae'r Cyngor yn ymgynghori â chynghorwyr ynghylch y rhaglen a'r strategaeth ddatblygu ar gyfer cynghorwyr. Cynhelir sesiynau hyfforddi gyda'r nos ac yn ystod y dydd er mwyn gwella hygyrchedd. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau pwyllgorau craffu newydd wrthym nad ydynt yn teimlo eu bod wedi eu paratoi'n ddigonol i graffu'n effeithiol a'i bod yn cymryd amser i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol.

11 Hyd yn hyn, prin fu'r hyfforddiant ar graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae lle i'r Cyngor adolygu'r ddarpariaeth o hyfforddiant herwydd yr heriau sydd i ddod. Er bod y cynghorwyr yn cael hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ar fframwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ychydig iawn o bwyslais fu ar hyfforddi cynghorwyr i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus na threfniadau cydweithredu eraill. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal hyfforddiant penodol ar graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2018 er mwyn paratoi cynghorwyr i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

12 Roedd aelodau o'r pwyllgor trosolygu a chraffu yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan yr hwyluswyr craffu yn y Cyngor. Yn ogystal â darparu gwaith ymchwil annibynnol a chefnogi'r grwpiau gorchwyl a gorffen, mae'r hwyluswyr craffu yn darparu cymorth ac arweiniad pwrpasol i aelodau pwyllgor, sy'n ategu'r hyfforddiant ffurfiol ar graffu a ddarperir. Mae swyddogion cymorth craffu hefyd yn hwyluso digwyddiadau cyn cyfarfodydd er mwyn helpu aelodau pwyllgor i baratoi ar gyfer pwyllgorau trosolygu a chraffu. Mae hwyluswyr craffu yn paratoi nodiadau

briffio ar gyfer cadeiryddion ac aelodau pwyllgor ac maent yn darparu arweiniad ar ymholiadau posibl. Roedd cynghorwyr yn gefnogol o'r trefniadau hyn ac yn canmol yr hwyluswyr am godi safon cyfarfodydd pwyllgor.

13 Mae ansawdd y papurau a gyflwynir i bwyllgorau craffu yn gynhwysfawr, gyda chymorth trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro ansawdd yr adroddiadau. Fodd bynnag, os bydd pwyllgorau byth yn ystyried nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflawni eu gwaith craffu yn effeithiol, maen nhw'n ceisio rhagor o fanylion gan swyddogion. Mynegodd cynghorwyr bryderon ynghylch nifer y swyddogion o fewn gwasanaethau'r Cyngor a'r effaith y mae hyn wedi ei chael weithiau ar brydlondeb adroddiadau craffu.

14 Mae swyddogion a chynghorwyr yn arddangos ymwybyddiaeth o'r heriau y bydd y swyddogaeth graffu yn eu hwynebu yn y dyfodol, megis cyllidebau llai. Mae rhoi mwy o bwyslais ar weithio'n rhanbarthol yn ystyriaeth allweddol ac mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei ddull o graffu'n rhanbarthol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r swyddogaeth graffu esblygu fel y gall wynebu heriau yn y dyfodol; mae Swyddog Monitro newydd y Cyngor yn bwriadu adolygu'r cyfansoddiad yn ystod y ddwy flynedd nesaf; bydd yr adolygiad hwn yn adlewyrchu trafodaethau â phartneriaid ynglŷn â goblygiadau newydd neu sy'n dod i'r amlwg o ran craffu ynghyd ag unrhyw oblygiadau sy'n codi o drefniadau craffu rhanbarthol.

## Mae arfer y Pwyllgor trosolygu a chraffu yn gwella ac mae wedi cynyddu ystod y ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio ond mae angen i aelodau'r pwyllgor gymryd perchnogaeth lwyr o'u blaenraglenni gwaith

15 Mae gan bob pwyllgor craffu flaenraglen waith glir iawn. Mae'r Grŵp Cydgysylltu Cadeiryddion Craffu yn goruchwylio ac yn cydgysylltu llwyth gwaith y pum pwyllgor ac mae hefyd yn adolygu blaenraglen waith y Pwyllgor Gweithredol yn rheolaidd er mwyn llywio rhaglenni craffu. Mae pob pwyllgor craffu yn datblygu rhaglen waith flynyddol, gan ystyried:

- Cynllun y Cyngor;
- adroddiadau ar berfformiad;
- cofrestr o risgiau corfforaethol;
- ymgynghoriadau cyhoeddus diweddar;
- arbedion arfaethedig yn y gyllideb a newidiadau sylweddol i wasanaethau; a
- ffurflenni dethol pynciau craffu gan swyddogion, cynghorwyr a'r cyhoedd.

Mae pwyllgorau yn adolygu'r flaenraglen yn rheolaidd ynghyd ag unrhyw ffurflenni dewis pynciau craffu a gyflwynwyd yn ddiweddar fel eitem sefydlog ar bob agenda cyfarfodydd y pwyllgorau. Ceir protocolau clir i gytuno ar bynciau i graffu arnynt, a'r blaenraglenni, sy'n nodi'r diben a'r canlyniad a ddisgwylir ar gyfer pob eitem.

16 Teimlai rhai aelodau trosolygu a chraffu newydd nad oedd ganddynt berchnogaeth ar agendau 2017-18 gan fod pwyllgorau yn dal i weithio ar eitemau a ddewiswyd gan y weinyddiaeth flaenorol. Mae'n debygol y caiff y pryderon hyn eu datrys wrth i'r pwyllgorau ddechrau gweithio ar eu rhaglenni ar gyfer 2018-19. Er, hynny, mae hyn yn awgrymu bod rhai cynghorwyr newydd nad ydynt yn deall yn llwyr y cyfle i ail-lunio rhaglenni gwaith y pwyllgorau, na bod gan bwyllgorau berchnogaeth lwyr ar eu rhaglenni gwaith. Gallai fod o gymorth cael arweiniad ychwanegol gan swyddogion ac aelodau pwyllgor mwy profiadol er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn.

17 Mae'r pwyllgorau trosolygu a chraffu yn ceisio cyflawni ei gweithgareddau rhagnodedig mewn ffordd gytbwys gan ddefnyddio craffu cyn ac ar ôl gwneud penderfyniadau. Mae aelodau craffu yn ffafrio craffu cyn penderfynu, ond mae lle i bwyllgorau gynnal gwaith mwy adlewyrchol, gan edrych ar effaith penderfyniadau blaenorol.

18 Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei swyddogaethau trosolygu, craffu ac archwilio; er enghraifft, mae Protocol Archwilio a Chraffu yn nodi disgwyliadau o ran rhannu gwybodaeth rhyngddynt. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu a'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Cydgysylltu Craffu ddwywaith y flwyddyn i drafod rhaglenni gwaith ac i rannu unrhyw bryderon. Adroddir yn rheolaidd ar adroddiadau archwilio allanol ac arolygiadau yn y Pwyllgor Archwilio, ac ystyrir llawer o'r adroddiadau hyn yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

19 Mae'r Cyngor wedi datblygu protocol craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gynnwys yn strwythur y pwyllgor trosolygu a chraffu sydd eisoes yn bodoli yn y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformio, Adnodau a Llywodraethu yn adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Llesiant. Cynhelir craffu manylach ar flaenoriaethau'r Bwrdd gwasanaethau Cyhoeddus gan y pwyllgorau craffu Dysgu Gydol Oes a Diogelu, Cymunedau a Llesiant. Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd pwyllgorau craffu wedi ystyried asesiad o anghenion llesiant a chynllun drafft llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

20 Cafodd y cyfarfodydd craffu y buom ni ynddynt eu cynnal yn dda. Roedd ymddygiad y cynghorwyr yn gwrtais ac yn adeiladol a gwelsom enghreifftiau o herio cadarn a thrafodaethau deallus. Mae cadeirio yn effeithiol yn gyffredinol, gan helpu i sicrhau bod gan y trafodaethau a'r cwestiynau bwyslais penodol a'u bod yn arwain at gasgliadau clir. Mae hwyluswyr craffu hefyd yn cynnig cymorth ac adborth i gadeiryddion llai profiadol pan fo angen. Mae pwyllgorau trosolygu a chraffu hefyd yn blaenoriaethu eitemau ar yr agenda fel y gellir ystyried eitemau yn ddigon manwl.

21 Er bod pwyllgorau trosolygu a chraffu yn cael gwybodaeth dewy adroddiadau swyddogion i raddau helaeth, mae pwyllgorau wedi cynyddu eu defnydd o ffynonellau tystiolaeth allanol. Mae rheoleiddwyr allanol a chynrychiolwyr sefydliadau sector cyhoeddus eraill fel y bwrdd iechyd lleol a'r heddlu yn bresennol yn y cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae trafodaethau pwyllgor trosolygu a chraffu

diweddar hefyd wedi eu llywio gan farn masnachwr marchnad lleol, llywodraethwyr ac athrawon ysgol, tenantiaid y cyngor a Senedd yr Ifanc[1].

22 Fodd bynnag, mae cyfraniad y cyhoedd ehangach mewn gweithgareddau trosolygu a chraffu yn fwy cyfyngedig. Mae gan y Cyngor Brotocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer Trosolygu a Chraffu, sy'n cynnig canllawiau ar gyfranogiad y cyhoedd yn y broses graffu. Mae'r adroddiadau trosolygu a chraffu blynyddol a gwefan y Cyngor yn egluro sut y gall y cyhoedd gymryd rhan. Er hynny, dywedodd cynghorwyr a swyddogion wrthym fod presenoldeb y cyhoedd yn y cyfarfodydd yn brin iawn ac yn gyfyngedig i faterion dadleuol. Pan fo aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgorau, mae'r Cyngor yn darparu taflen wybodaeth sy'n esbonio trafodion y pwyllgorau trosolygu a chraffu. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weddarlledu ei gyfarfodydd pwyllgor trosolygu a chraffu er mwyn gwella hygyrchedd a thryloywder. Mae'r Cyngor wedi neilltuo digon o adnoddau i weddarlledu oddeutu pum cyfarfod y flwyddyn. Y Grŵp Cydgysylltu Craffu sy'n dewis pa gyfarfodydd i'w gweddarlledu yn seiliedig ar ba eitemau ar yr agenda sy'n debygol o greu'r diddordeb mwyaf neu'r effaith fwyaf o ran y cyhoedd. Fodd bynnag, mae cyfraniad y cyhoedd yn y broses graffu yn parhau i fod yn oddefol yn hytrach nag ymarferol; mae lle i'r Cyngor ailystyried 10 Egwyddor Cyfranogiad Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd o ran gwella'r ffordd y mae craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

## Mae'r swyddogaeth trosolygu a chraffu yn cyfrannu at welliannau o ran perfformiad a gwneud penderfyniadau drwy herio'n rheolaidd ac mae'n gallu arddangos effaith gadarnhaol, ond mae angen i'r Cyngor adolygu pa un a yw'r swyddogaeth yn barod at y dyfodol

23 Mae pwyllgorau trosolygu a chraffu yn herio ac yn dwyn aelodau arweiniol a swyddogion i gyfrif yn rheolaidd. Nodir swyddogaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol o ran craffu yn glir ym mhrotocolau'r Cyngor. Mae aelodau arweiniol a swyddogion yn cyflwyno adroddiadau i bwyllgorau, a gwelsom aelodau pwyllgor gweithredol yn cyflwyno adroddiadau, yn derbyn cwestiynau, ac yn cael eu dwyn i gyfrif mewn cyfarfodydd pwyllgor. Mae uwch swyddogion yn helpu i ateb cwestiynau ac yn cyflwyno adroddiadau sy'n fwy gweithredol neu dechnegol eu natur.

24 Rhoddodd y cynghorwyr a'r swyddogion enghreifftiau o bwyllgorau trosolygu a chraffu yn cyfrannu at ddatrysiadau i broblemau a gydnabuwyd, er enghraifft adfywio canol tref Wrecsam. Amlygwyd gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen craffu fel bod yn arbennig o werthfawr.

[1] Senedd yr Ifanc yw Senedd y bobl ifanc yn Wrecsam sy'n cynnwys pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'n casglu safbwyntiau a barn y bobl ifanc yn Wrecsam ar faterion penodol sy'n effeithio arnynt.

25 Mae'r cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd y swyddogaeth craffu yn rheolaidd. Mae trafodaethau anffurfiol ar ôl pwyllgorau, yn rhoi cyfle i Gadeiryddion, Is-gadeiryddion a hwyluswyr craffu adlewyrchu ar gyfarfodydd y pwyllgorau a meysydd posibl ar gyfer eu gwella. Mae'r Cyngor yn ymateb yn briodol i bryderon y cynghorwyr o ran craffu, megis newid y ffordd y mae argymhellion craffu yn cael eu drafftio. Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu ei drefniadau craffu ar y gyllideb yn dilyn pryderon a leisiwyd gan aelodau pwyllgor, nad oedd amseru'r cyfarfodydd a'r adroddiadau a ddarparwyd yn cefnogi craffu effeithiol. Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu effaith y swyddogaeth graffu bob blwyddyn yn ei adroddiad trosolygu a chraffu blynyddol. Mae'r adroddiadau yn crynhoi gwaith y swyddogaeth graffu ac yn cynnwys rhai enghreifftiau o effaith argymhellion y gwaith craffu.

26 Yn 2014, comisiynodd y Cyngor y Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus i'w helpu i adolygu a gwella ei swyddogaeth graffu. Lluniodd y Cyngor weithgor i helpu i weithredu a monitro'r cynllun gweithredu dilynol. Mae'r newidiadau a wnaed wedi cryfhau'r swyddogaeth graffu ac mae erbyn hyn mewn gwell sefyllfa i ymdrin â heriau presennol.

27 Fodd bynnag, fel yn y rhan fwyaf o Gynghorau, mae'r swyddogaeth graffu yn parhau i fod yn draddodiadol ei dull. Gallai fod o fudd i'r Cyngor ystyried adolygiad mwy uchelgeisiol, gan ystyried ffyrdd mwy modern ac o bosibl mwy effeithlon o gynnal craffu a fydd yn gwneud y swyddogaeth yn barod at y dyfodol. Er enghraifft, gallai'r Cyngor ystyried lleihau faint o weithgareddau a gynhelir neu'r mathau a gynhelir drwy gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol a rhoi mwy o bwyslais er enghraifft ar gasglu gwahanol farnau yn hytrach na chael adroddiadau, a/neu gynyddu capasiti'r grwpiau gorchwyl a gorffen a ffurfiau eraill o weithgareddau trosolygu a chraffu. Gallai'r Cyngor hefyd ystyried cyfleoedd i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd yn fwy ymarferol yn ystod y broses graffu, gan ategu gweithgareddau eraill sydd â'r bwriad o foderneiddio ei drefniadau craffu.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolygu a chraffu effeithiol llywodraeth leol

Arddangosyn 1: canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolygu a chraffu effeithiol llywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio ei gyflawni?** | **Sut y byddai hyn yn edrych? Sut y gallem ni ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwell Gwasanaethau'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu swyddogaeth glir a gwerthfawr iawn yn nhrefniadau gwella'r Cyngor.<br>ii) Mae'r cymorth pwrpasol angenrheidiol ar gyfer craffu ar gael gan swyddogion sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, gan ddarparu dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i'r aelodau craffu.<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymholiadau Trosolygu a Chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn ymgorffori ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae trefniadau trosolygu a chraffu yn ymwneud yn rheolaidd â herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae craffu yn cynnig datrysiadau dichonadwy a seiliedig ar dystiolaeth i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio ei gyflawni?** | **Sut y byddai hyn yn edrych? Sut y gallem ni ei adnabod?** |
| **2. Mae gwneud penderfyniadau mewn modd democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Gwell Penderfyniadau'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cymorth effeithiol gan dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth a roddir i graffu arni o ansawdd uchel ac yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Arweinir y craffu gan Aelodau ac mae ganddo 'berchnogaeth' ar ei raglen waith gan ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr gan gadw cydbwysedd rhwng blaenoriaethu pryderon y gymuned a materion o risg a phwysigrwydd strategol.<br>iv) Caiff rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni craffu.<br>v) Cynllunnir cyfarfodydd a gweithgareddau trosolygu a chraffu yn dda, cânt eu cadeirio yn effeithiol gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau nad ydynt yn rhai gweithredol yn darparu rhwystrau a gwrthbwysau ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol.<br>vii) Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn darparu atebolrwydd i'r cyhoedd o ran portffolio eu cyfrifoldebau mewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaeth ddemocrataidd ar y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.** | **Amgylchedd**<br>i) Cydnabyddir bod craffu yn ddull pwysig o ymgysylltu â'r gymuned gan dîm y Rheolwyr Gweithredol a Chorfforaethol.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodwedd y craffu yw cyfathrebu'n effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad mewn atebolrwydd democrataidd.<br>iii) Mae craffu yn gweithredu yn anwleidyddol ac yn ymdrin â materion gwleidyddol sensitif, tyndra a gwrthdaro yn effeithiol.<br>iv) Mae craffu yn magu ymddiriedaeth a pherthnasoedd da gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae trosolygu a chraffu yn galluogi 'llais' pobl leol a chymunedau ledled yr ardal i gael ei glywed yn rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a gwneud polisïau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ (Mai 2014)

Arddangosyn 2: argymhellion o Astudiaeth Gwella Craffu ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rhan aelodau gweithredol ac uwch swyddogion mewn cyfrannu at graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn enwedig cadeiryddion craffu yn cael hyfforddiant a chymorth i roi iddynt yr holl sgiliau sydd eu hangen arnynt i gynnal craffu mewn modd effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu blaenragelnni gwaith ymhellach er mwyn:<br>• darparu sail resymegol glir ar gyfer dewis pynciau;<br>• rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau<br>• sicrhau bod y dull o graffu yr un mwyaf addas ar gyfer maes y pwnc a’r canlyniadau a ddymunir; ac<br>• chyfochri rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella y cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod craffu wedi’i seilio yn effeithiol ar waith archwilio, arolygu a rheoleiddio a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, ASGC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu a chanlyniadau gweithgareddau craffu, pan fo hynny’n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, ASGC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau bod effaith craffu yn cael ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir ar hynny i wella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthuso craffu yn rheolaidd gan ddefnyddio'r 'canlyniadau a nodweddion trosolygu a chraffu llywodraeth leol effeithiol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolygu a Chraffu Cymru. | Y Cyngor |
| A8 | Gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu a ddatblygwyd gan astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu'r 10 Egwyddor ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru